Cyngor Rheolaeth Cymru

Wales Management Council

Adolygiad o 2002 - 2003

Arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth

Cynnwys

Gweledigaeth a Chenhadaeth 1

Adolygiad y Cadeirydd 2

Adroddiad y Prif Weithredwr 3/4

Agenda ar gyfer Gweithredu 5/6/7

Gweithio Perfformiad Uchel 8

Rheoli ac Arloesi 9

Her Tîm Rheolaeth Cymru 10

Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru 11

Aelodau'r Cyngor 12

© Cyngor Rheolaeth Cymru 2003

Caniateir atgynhyrchu adrannau o'r ddogfen hon cyn belled â bod cydnabyddiaeth lawn yn cael ei rhoi i'r cyhoeddwyr, sef Cyngor Rheolaeth Cymru.

Corff y mae cyflogwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, sy'n derbyn nawdd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, i hybu datblygiad rheolwyr yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru.

Nod Cyngor Rheolaeth Cymru yw ysbrydoli, cymell ac ysgogi newid yn y ddirnadaeth ynglŷn â chyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac yn y modd o'u darparu, y nifer sy'n manteisio arnynt a nawdd ar eu cyfer.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Blwch Post 61
Caerdydd
CF24 5YE

Ffôn: 029 2045 0224
Ffacs: 029 2045 0231

e-bost:

Prif Weithredwr:	Christopher Ward	christopher.ward@crc-wmc.org.uk
Gweithredwr Marchnata:	Gwyneth Stroud	gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk
Gweithredwr Gogledd Cymru:	Hywel Roberts	hywel.roberts@btinternet.com

I gael mwy o wybodaeth am waith Cyngor Rheolaeth Cymru, piciwch i mewn i'n gwefan
www.crc-wmc.org.uk

Gweledigaeth a Chenhadaeth

Corff y mae'r gweithwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, a'i genhadaeth yw helpu rheolwyr yng Nghymru i arwain a rheoli mewn modd llwyddiannus.

Ein gweledigaeth yw gwlad lle y mae rheolwyr pob sector yn ddigon uchelgeisiol, ac yn ddigon galluog, i greu a chynnal busnesau a sefydliadau sydd ymhlith y gorau yn y DU.

Ein nod yw defnyddio'r strategaeth newydd ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth i gyflawni hyn, gan weithio gyda'r holl asiantaethau cyhoeddus perthnasol, sefydliadau busnes a'r rheolwyr eu hunain.

Bydd y strategaeth honno'n ceisio:

- Argyhoeddi pob rheolwr o'r manteision ddaw yn sgîl datblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- Ymchwilio yn drylwyr i nodi gwir anghenion datblygu rheolwyr Cymru
- Gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn gallu sicrhau hyfforddiant a datblygiad hyblyg, o safon uchel
- Rhannu arfer gorau rheolwyr y DU a rheolwyr rhyngwladol â holl fusnesau Cymru
- Mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy

Diwallu Taer Angen

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu Cyngor Rheolaeth Cymru, ac mae rhai o bobl flaenllaw sectorau cyhoeddus a phreifat y wlad yn aelodau o'r cyngor.

Rydym yn bodoli oherwydd y bydd ansawdd rheolwyr ac arweinwyr Cymru yn effeithio yn uniongyrchol ar ein twf, ein cynhyrchiant a'n perfformiad yn y dyfodol.

Mae'r galw ar ein rheolwyr ar gynnydd, ac mae'n rhaid i sefydliadau wneud yn siwr bod eu gweithredwyr yn ddigon medrus wrth reoli ac arwain i allu cystadlu ar y lefel uchaf.

Felly, mae busnesau yng Nghymru yn mynnu cyfleoedd hyfforddi a datblygu o'r ansawdd gorau, sydd mor berthnasol â phosibl ac y gall cymaint o bobl â phosibl fanteisio arnynt.

Darparu Arweinyddiaeth Gref

Nod Cyngor Rheolaeth Cymru yw arwain y broses o roi strategaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol ar waith er mwyn ymdrin yn effeithiol â'r anghenion hyn.

Wrth hybu'r strategaeth hon, byddwn yn cydweithio yn agos â phartneriaid fel y Cyngor Cenedlaethol – ELWa, CCAUC, y WDA a chyrff sy'n cynrychioli busnesau a rheolwyr eu hunain.

Ein nod yw defnyddio cyfathrebu cyson sydd wedi'i dargedu yn dda i helpu i newid agweddau a chynyddu'r ymwybyddiaeth o angen Cymru i ddatblygu ei rheolwyr i'w potensial llawn.

Gan ddefnyddio ymchwil gadarn, ein nod yw ysgogi meddwl mewn ffordd newydd yn ogystal â dwyn sylw at sut a phryd yn union y mae angen i Gymru wella'i darpariaeth datblygu rheolwyr.

Ein nod yw helpu i roi cychwyn i'r newid gofynnol yn ogystal â rhannu arfer gorau yn yr economi trwyddo draw, a hynny trwy gydweithio â phartneriaid.

Dull sy'n Canolbwyntio ar Weithredu

Yn ogystal â'n rôl yn cefnogi'r achos dros well rheolaeth ac arweinyddiaeth, ein nod yw helpu sefydliadau a rheolwyr unigol, trwy:

- Ledaenu gwybodaeth ymarferol ar wella rheolaeth, trwy gynadleddau, seminarau, gwaith argraffedig a'r Rhyngrwyd
- Hwyluso'r ddadl ynglŷn ag agweddau allweddol ar reolaeth
- Galluogi busnesau sy'n esiamplau da i rannu eu harfer da â mentrau eraill

Mae ein dull o weithio yn canolbwyntio yn gryf ar gyflawni canlyniadau y mae modd eu mesur.

Byddwn yn gosod targedau arloesol i wella gallu rheoli a pherfformiad, a byddwn yn mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy y DU.

Ein meincnod yn y pen draw yw cynnydd mawr yn effeithlonrwydd a phroffidioldeb busnesau a sefydliadau, gan arwain at dwf economaidd sylweddol i Gymru.

Yn Barod i Weithredu

Gan Ian Rees – Cadeirydd, Cyngor Rheolaeth Cymru

Wrth i drydedd flwyddyn o fodolaeth Cyngor Rheolaeth Cymru ddod i ben, rydym bellach yn teimlo bod yn rhaid inni weithredu ar frys, a hyd yn oed yn teimlo braidd yn ddiamynedd, i weld y sylfeini y mae wedi eu gosod yn cael eu trosi yn weithredu go iawn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn enwedig, rydym wedi bod yn arwain y ddadl i ddarbwyllo'r rheiny sydd ag awdurdod a dylanwad bod yna gyswllt na ellir mo'i wadu rhwng ansawdd rheolwyr ac arweinwyr a pherfformiad busnes yn gyffredinol.

Bu'r Cyngor yn gweithio'n galed i gadw'r holl fater hwn ar frig yr agenda, er mwyn gwneud Cymru yn ymwybodol o arfer da byd-eang sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i fentrau unigol yn ogystal ag i economïau cyfan.

Rhoddwyd hwb arbennig i'r broses hon yr haf diweddaf pan ddaeth 30 o benderfynwyr pwysicaf Cymru ynghyd â dau o'r bobl allweddol a oedd wrth wraidd chwyldro economaidd Singapore.

Gwnaethant fanylu yn glir ar sut roedd meithrin rhagoriaeth ac arloesedd ym maes rheoli busnesau yn arwain y ffordd at ddatblygiad pwysig arall mewn gwlad sydd eisoes yn cael ei hystyried yn economi Teigr ac yn arweinydd rhanbarthol. Bellach, eu nod yw sicrhau'r un Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen ag UDA yn ystod y 30 mlynedd nesaf.

Trosglwyddwyd y feddylfryd newydd o'r gynhadledd ar "Weithio Perfformiad Uchel" i gynhadledd Sgiliau Cymru fis Hydref ac i gyfarfodydd pwysig eraill ers hynny.

Ond mae'r cyfnod i ddadlau yn unig yn dirwyn i ben, ac rydym yn awyddus i weld y ffyrdd newydd hyn o feddwl yn cael eu rhoi ar waith, â chefnogaeth buddsoddiad cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar fudd strategol i Gymru. I gynorthwyo â'r broses hon, rwy'n falch fy mod wedi cael gwahoddiad i arwain pwyllgor datblygu rheolwyr ac arweinwyr newydd y Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

Sefydlwyd Cyngor Rheolaeth Cymru i dorri tir newydd ac i bledio achos dros ragoriaeth rheolaeth. Rydym wedi bod yn weddol llwyddiannus yn hyn o beth. Mae'r Cynulliad ac eraill wedi ystyried blaenoriaethau'r Cyngor, ac mae'r sefydliad ei hun yn datblygu i fod yn gyfeirbwynt pwysig i'r rheiny yng Nghymru sy'n sylweddoli gwerth rheolaeth ac arweinyddiaeth dda.

Rydym yn parhau i fod yn sefydliad unigryw yng Nghymru. Rydym yn meddu ar y profiad a'r arbenigedd cyfunol i allu deall y gwir faterion sydd wrth wraidd rheolaeth ac arweinyddiaeth. Nid oes unrhyw un arall sy'n canolbwyntio yn ddiwyro ar y gallu i reoli, ac nid oes unrhyw un arall yn rhydd i ganolbwyntio yn barhaus ar y pryder hwn.

Mae ein profiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, â mentrau gwerthfawr fel Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru, a'n trafodaethau hanfodol â rheolwyr yn y maes a'u cynrychiolwyr wedi ein hargyhoeddi y bydd rhannu arfer da yn elfen bwysig iawn yn ein llwyddiant yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i'n blaenoriaethau gynnwys dod o hyd i ffyrdd newydd o ledaenu arferion o'r fath ymhellach ac yn ehangach yn ogystal â ffyrdd o sicrhau bod cyfleoedd datblygu rheolwyr yng Nghymru yn haws manteisio arnynt, yn fwy hyblyg ac, yn bwysicaf oll, yn fwy effeithiol.

Mae ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** y Cyngor, a ddatblygwyd dros y misoedd diwethaf, yn cynnwys cynigion allweddol i wireddu hyn. Rydym o'r farn y bydd y ddogfen hon yn dod yn feincnod allweddol ar gyfer gwell perfformiad rheoli yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn rhoi rhagoriaeth rheolaeth ac arweinyddiaeth ar frig eu hagendâu.

Ni chawsom ein sefydlu i fod yn garfan bwyso ond, trwy feddwl â ffocws a thrafod yn helaeth â'n partneriaid, rydym wedi datblygu barn glir o'r hyn y mae ei angen ac rydym wedi manylu ar y dadleuon craidd, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r amser i weithredu wedi cyrraedd, a'n nod yw dod yn gydwybod y rheiny sy'n gyfrifol am weithredu o'r fath. Yn Adolygiad y flwyddyn nesaf, byddwn yn adrodd ar sut y bydd ein ***Hagenda ar gyfer Gweithredu*** wedi'i hyrwyddo ac ar ei heffaith ar reolaeth yng Nghymru.

Canolbwynt Newydd ac Agenda Gadarn

Gan Christopher Ward, Prif Weithredwr Cyngor Rheolaeth Cymru

Bydd pobl yn aml yn gofyn i mi, "Beth y mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn ei wneud?" Rwy'n gobeithio y bydd yr adolygiad hwn o'n gwaith o 2002 i 2003 yn ateb y cwestiwn hwn i raddau helaeth.

Cefais fy mhenodi yn Brif Weithredwr fis Mawrth 2002, ac ym mis Ebrill roedd y Cyngor yn gofyn yr un cwestiwn. Roeddem o'r farn bod angen ailganolbwyntio ein gweithgareddau, a mynegi yn fwy eglur yr hyn yr ydym yn ei gynrychioli. Roedd ein datganiad newydd o genhadaeth yn cyfleu hyn yn gryno, gan ddatgan nod i

"Helpu rheolwyr yng Nghymru i arwain a rheoli mewn modd llwyddiannus."

Rydym yma i helpu rheolwyr i wella o ran rheoli ac arwain, fel bod eu busnesau a'u sefydliadau'n gallu cyfrannu mwy fyth at economi Cymru.

Ein hamcan sylfaenol ar gyfer y flwyddyn oedd ymchwilio i strategaeth ar gyfer datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru, ac ysgrifennu'r strategaeth honno. Deilliodd hyn o orchymyn yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2002. Roedd y strategaeth i fod ar waith erbyn mis Medi 2002. Roeddem wrth ein bodd ein bod wedi gallu cyflwyno ***Datblygu a hyfforddi rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru – Agenda ar gyfer Gweithredu*** i Gyngor Cenedlaethol - ELWa erbyn y dyddiad targed ac, yn fwy diweddar, wedi gweld nifer o'n hargymhellion yn cael eu cynnwys mewn cynigion a ddaeth yn sgîl adolygiad y Cyngor Cenedlaethol – ELWa o'i wasanaethau i fusnesau.

Mae'r ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** wedi'i dosbarthu yn eang, ac mae pob sector wedi ymateb yn bositif iddi. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan, a bydd copïau caled ar gael ddiwedd mis Mehefin 2003. Mae tudalennau 5-7 yr Adolygiad hwn yn crynhoi'r Weledigaeth, yr Amcanion Strategol a'r Cynllun Gweithredu.

Mae ein gweithgareddau yn uniongyrchol gysylltiedig ag argymhellion yr adroddiad hwn, ac yn cyfuno gweithredu uniongyrchol, gwaith mewn partneriaeth ag eraill, cyflwyniadau a thrafodaethau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar ein hamcanion strategol, sef ysgogi dadlau, rhannu arfer gorau, nodi anghenion datblygu rheolwyr, lledaenu negeseuon allweddol ***Agenda ar gyfer Gweithredu,*** a dylanwadu yn briodol trwy amrywiaeth eang o gynadleddau, pwyllgorau a grwpiau gwaith. Yn ystod 2002-03 rydym wedi:

- ariannu Her Tîm Rheolaeth Cymru lwyddiannus iawn am yr ail flwyddyn yn olynol.
- cynnal seminar polisi arloesol ar Weithio Perfformiad Uchel, ac yna cyfrannu yn helaeth at gynhadledd Sgiliau Cymru ar yr un thema.
- cyhoeddi adroddiad pwysig ar Reoli ac Arloesi ar yr un pryd â lansio cynllun gweithredu Cymru o Blaid Arloesi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Datblygodd hyn yn sgîl gwaith ein Grŵp Gwaith Arloesi.
- cyfrannu at gynadleddau, seminarau a chyfarfodydd rhwydwaith y mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa, CCAUC, CGGC, CMI, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Fforwm, arddangosfa Cymru'r Dyfodol yn Llandudno, ac at BBC Wales@Work.
- rheoli rhaglen newydd Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru y mae Canolfan Ansawdd Cymru yn ei darparu a'i chydlynu.
- rhoi cynhadledd glywedol arloesol o Brifysgol Harvard ynglŷn â rheoli newid ar brawf.

- parhau i adeiladu cysylltiadau cydweithredol cryf â'n sefydliad cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, sef Management and Leadership Network.

- gweithio fel aelodau o'r pwyllgorau a'r grwpiau gwaith canlynol: Byrddau Partneriaeth Datblygu Adnoddau Dynol Amcan 1 a 3; Grŵp Llywio Adolygu Safonau Rheoli Cenedlaethol; Grŵp Gwaith a Gorffen Partneriaethau Gweithle; Grŵp Cyflogwyr Sgiliau Dyfodol Cymru; Grŵp Cyflogwyr Llywodraeth Leol – Datblygu Arweinwyr; Grŵp Gwaith Rheoli Prosiectau'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa

- gweithio tuag at gydweithio yn agosach â'r cyrff canlynol: Cyngor Cenedlaethol – ELWa, CCAUC, WDA, holl Ysgolion Busnes Cymru, yr holl fforymau diwydiant (Awyrofod, Electroneg Modurol, Opto-electroneg, Technoleg Deunyddiau, Mecatroneg, Argraffu a Gorchuddio), Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IOD), CMI, Sefydliad Arwain a Rheoli (ILM), Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad (CIPD). Fforwm, BBC, Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA).

Ym mhob un o'r achosion hyn, rydym yn hollol ymwybodol ein bod yn rhan o gêm hir iawn. Nid oes ateb hawdd a chyflym ar gael. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr y flwyddyn nesaf ein bod yn adeiladu yn fwy cadarn fyth ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud eleni.

Yn y flwyddyn sydd ar ddod, rydym yn bwriadu

- helpu i roi argymhellion ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** ar waith

- estyn ac ehangu ein rôl partneriaeth a'n rôl dylanwadu

- cyfrannu at y broses o weithredu strategaethau Partneriaeth Arloesedd a'r Gweithle, sy'n gysylltiedig yn agos â Gweithio Perfformiad Uchel

- edrych yn fanwl ar ddyfeisiau diagnostig a dyfeisiau gwerthuso, a'u datblygu, er mwyn helpu i ddatblygu gwell rheolaeth

- sefydlu cysylltiadau agosach â'r Cynghorau Sgiliau Sector wrth iddynt ddod i'r amlwg

- cyfrannu at y broses o gyflwyno'r safonau galwedigaethol cenedlaethol newydd ar gyfer rheoli

- cefnogi Model Rheoli ac Arwain newydd Buddsoddwyr mewn Pobl

- adeiladu cysylltiadau cryfach fyth â sefydliadau a rhwydweithiau sydd eisoes yn ymwneud â helpu rheolwyr i wella.

I gloi, rhywbeth ichi gnoi cil drosto:

Fel rhan o'r gwaith ar safonau rheolaeth cenedlaethol, roedd y grŵp llywio yn chwilio am ddiffiniad cyffredinol o reolaeth ac arweinyddiaeth. Dyma a ddewiswyd yn y pen draw:

"Diben allweddol rheolwyr ac arweinwyr yw darparu cyfeiriad, ennill ymroddiad, hwyluso newid a chyflawni canlyniadau trwy ddefnyddio pobl ac adnoddau eraill yn effeithlon, yn greadigol ac yn gyfrifol."

Ydych chi'n cytuno â hyn? Ai dyma y byddwch chi'n ei wneud? A fyddech cystal â rhannu'ch syniadau â ni yn adran 'Fforwm' ein gwefan. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthych, yn ogystal â gweithio gyda chi yn ystod y flwyddyn nesaf.

Ffyrdd Newydd o Feddwl i Greu Rheolwyr sy'n Ennill

Fis Ebrill 2002, gorchmynnodd y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth fod yn rhaid i Gyngor Rheolaeth Cymru gydweithio â'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa a CCAUC i gynhyrchu strategaeth ar gyfer datblygu a hyfforddi rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru, a hynny erbyn mis Medi 2002.

Llwyddodd Cyngor Rheolaeth Cymru i gyflwyno'r strategaeth a'r cynllun gweithredu *Datblygu a Hyfforddi Rheolwyr ac Arweinwyr yng Nghymru* – ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** i'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa a CCAUC erbyn y dyddiad targed. Yn dilyn cyfnod ymgynghori, mae nifer o'r argymhellion bellach yn cael eu cynnwys yn adolygiad cyfredol ELWa o Wasanaethau i Fusnesau.

Mae'r *Agenda ar gyfer Gweithredu* yn edrych yn radical ar natur rheolaeth ac arweinyddiaeth, dulliau hyfforddi a datblygu a mecanweithiau ariannu, gan weithio tuag at weledigaeth newydd o ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru sy'n cwmpasu'r nodweddion canlynol:

Edmygedd Edmygir gallu i arwain a rheoli ac mae'n destun siarad.

Dealltwriaeth Deellir gallu arweinwyr a rheolwyr ar sail gorchmynion busnes a llwyddiant, nid ar sail diffiniadau academaidd.

Dilyniant Ystyrir datblygu arweinwyr a rheolwyr yn broses barhaus, naturiol, gydag anghenion busnes yn ei gyrru.

Ymroddiad Mae rheolwyr yn ymroddedig i wella'u hunain er lles eu busnesau a'u sefydliadau.

Dewis Gall rheolwyr ddewis y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arwain a rheoli sydd orau iddynt hwy a'u hanghenion, a hynny ar sail gwybodaeth.

Hyfedredd Mae'r hyfedredd a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i wneud i fusnesau a sefydliadau dyfu yn cael mwy o flaenoriaeth na'r cymwysterau y gallent arwain atynt.

Darpariaeth Mae darparu cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad, o ba le bynnag y daw, yn eang (o ran lefel a chynnwys), yn hyblyg (o ran amser, hyd a lleoliad), yn berthnasol (i anghenion busnesau a sefydliadau), yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy (i unigolion a sefydliadau), ac mae'r priodweddau hyn yn diffinio ansawdd.

Ariannu Mae'r drefn ariannu cyhoeddus ar gyfer datblygu arweinwyr a rheolwyr yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r ddarpariaeth yma trwy fod yn eang (o ran math a buddiolwyr), yn hyblyg (o ran swm a graddfa amser), yn berthnasol (â deilliannau sy'n tueddu at lwyddiant y busnes a'r sefydliad) ac yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy (i unigolion a sefydliadau fel ei gilydd).

Cronfa ddata Mae'r mecanweithiau ariannu, y darparwyr a'r ddarpariaeth hyfforddi a datblygu rheolwyr yn cael eu categoreiddio mewn cronfa ddata genedlaethol

Monitro Mae darpariaeth ac effaith datblygu arweinwyr a rheolwyr yn cael ei fonitro bob blwyddyn.

Cydlynu Mae asiantaethau cyhoeddus a chyrff swyddogol eraill yng Nghymru yn gweithredu fel tîm cydlynol sy'n cefnogi cyflawni'r weledigaeth yma er mwyn i reolwyr gael llwybr di-fwlch, hawdd ei ddeall i ddatblygu eu sgiliau.

Mae'r ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** yn cynnig chwech amcan strategol ac amrywiaeth o weithredoedd allweddol er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon:

Cynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygiad rheolwyr ac arweinwyr, a chynyddu diddordeb yn y maes ac ymroddiad iddo ymhob sector ar bob lefel.

- Y cyfryngau yn sôn yn rheolaidd ac yn barhaus am faterion sy'n ymwneud â datblygiad rheolwyr ac arweinwyr, gyda'r pwyslais ar arfer gorau sy'n arbennig o berthnasol i SMEs.
- Cynadleddau, gweithdai a seminarau rhanbarthol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â datblygiad rheolwyr ac arweinwyr, gyda'r pwyslais ar arfer gorau sy'n arbennig o berthnasol i SMEs.
- Cyhoeddiadau argraffedig ac ar y rhyngrwyd, o Gymru a thu hwnt, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr ac yn darparu enghreifftiau o arfer gorau, a help sy'n rhwydd manteisio arno.
- Cynnydd yn aelodaeth sefydliadau sydd â datblygiad rheolwyr ac arweinwyr yn rhan graidd o'u cylch gorchwyl a'u hamcanion.
- Annog enwebiadau personol fel rhan o'r dyfarniadau blynyddol cenedlaethol ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr ymhob sector ac mewn busnesau o bob maint.
- Cystadlaethau blynyddol i brofi a gwobrwyo sgiliau rheolwyr ac arweinwyr.
- Cynllun Cymru gyfan i achredu busnesau a sefydliadau sy'n enghreifftiau o arferion da mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac sy'n fodlon rhannu'r arferion hyn ag eraill.

Helpu rheolwyr i nodi eu hanghenion eu hunain o ran datblygu sgiliau rheoli ac arwain.

- Sefydlu, cynnal, darparu a gwerthuso cynllun mentora rhwng busnesau, sefydliadau, ac unigolion.
- Paratoi dyfais diagnostig y mae modd i bob busnes a sefydliad ei ddefnyddio i helpu unigolion i nodi anghenion datblygu sgiliau rheoli ac arwain a bylchau mewn sgiliau.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i fanteision y dyfais diagnostig hwn a sicrhau ei fod ar gael i bob busnes a sefydliad yng Nghymru.

Sicrhau bod rheolwyr yn gallu dewis ar sail gwybodaeth pa rai yw'r atebion gorau o ran datblygu rheolwyr ac arweinwyr i'w busnes neu eu sefydliadau a chynyddu eu hymwneud â gweithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr a'u cyfranogiad ohonynt.

- Categoreiddio'r ddarpariaeth cefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr, ynghyd â'r ffynonellau cyllid, ar gronfa ddata genedlaethol sydd ar gael i bawb, lle gellir chwilio yn ôl angen neu fudd, yn ogystal ag yn ôl cynnyrch, sector a daearyddiaeth.
- Cynnal y gronfa ddata hon fel man un cyswllt ar gyfer yr holl gefnogaeth datblygu rheolwyr ac arweinwyr.
- Sefydlu mecanwaith i roi cyhoeddusrwydd i asesiadau defnyddwyr o ansawdd y ddarpariaeth yn y gronfa ddata.
- Annog yr holl asiantaethau cyhoeddus a'r cyrff swyddogol yng Nghymru i gyfrannu at adeiladu'r gronfa wybodaeth hon er mwyn cyflwyno ffynhonnell wybodaeth unedig i'r defnyddiwr.

Darparu ffynonellau arian cyhoeddus ar gyfer amcanion strategol 1 - 3, a darpariaeth cefnogaeth berthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr a rheolwyr.

- Mapio, hybu a chydnabod arian cyhoeddus fel prif ysgogydd newid o ran agweddau, y modd o ddarparu, a chanlyniadau'r holl weithgareddau datblygu arweinwyr a rheolwyr a nifer y rhai sy'n manteisio arnynt.
- Canolbwyntio arian cyhoeddus ar angen, nid ar y cynnyrch, a'i hybu fel galluogwr hyblyg sy'n helpu busnesau, sefydliadau ac unigolion i ddewis yr hyfforddiant a'r datblygiad sy'n berthnasol iddynt ar sail gwybodaeth.
- Cyflwyno cynlluniau syml anfiwrocrataidd, e.e. cyflwyno Cyfrifon Dysgu i Gwmnïau, yn enwedig i SMEs â llai na 50 o staff.
- Sicrhau bod arian sylweddol ar gael ar gyfer cynllun mentora Cymru-gyfan rhwng busnesau ac unigolion.
- Arian cyhoeddus i dalu am staff llanw er mwyn galluogi pobl eraill i hyfforddi, yn ogystal â gweithgareddau hyfforddiant unigol.
- Cefnogaeth ehangach i fusnes, wedi ei hariannu'n gyhoeddus, a'i chysylltu â chaffael hyfedredd a sgiliau (yn enwedig sgiliau rheoli) ar sail systematig a chynlluniedig.

Sefydlu fframwaith gwerthuso a monitro i asesu canlyniadau ac effaith gweithgareddau datblygu arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru a nifer y rhai sy'n manteisio arnynt.

- Monitro'n flynyddol safon a nifer y cyfleoedd datblygu arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithgarwch hwn o'i gymharu â thargedau datblygu rheolwyr ac arweinwyr.
- Ymchwilio i fecanweithiau i werthuso canlyniadau ac effeithiau gweithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr a'u sefydlu.

Adolygu'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion newidiol pob busnes a sefydliad yng Nghymru.

- Adolygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu bob dwy flynedd yng ngoleuni gwybodaeth monitro a gwerthuso.
- Adolygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu bob dwy flynedd yng ngoleuni anghenion busnesau a sefydliadau yr adroddwyd arnynt ac agenda economaidd ehangach Cymru a datblygiadau yn y farchnad ryngwladol.

Mae fersiwn llawn yr ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** ar gael fel copi caled ar eich cais ac mae ar ein gwefan.

Rhan allweddol o gynllun gweithredu Cyngor Rheolaeth Cymru yw cyfrannu at amcanion cyffredinol a gweithredoedd allweddol y mae'r ***Agenda ar gyfer Gweithredu*** yn eu hargymell.

Dysgu Gwersi o Economïau Mwyaf Llwyddiannus y Byd

Mae egwyddorion "Gweithio Perfformiad Uchel" (GPU), sydd wedi trawsnewid busnesau ac economïau cyfan ledled y byd, bellach yn cael eu hystyried yn fodel ar gyfer ffyniant Cymru yn y dyfodol.

Mae cyfres o ddogfennau polisi, gan gynnwys Cymru o Blaid Arloesi a'r Cynllun Gweithredu Partneriaethau'r Gweithle yn amlygu pa mor bwysig y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y dull raddedig hwn o ymdrin â rheolaeth.

Wrth ymateb i'r cylch gorchwyl eglur a roddodd y Cynulliad i Gyngor Rheolaeth Cymru yn y Cynllun Gweithredu, gosodwyd y mater ar agenda'r Cyngor yn ystod 2002-03 trwy alw cyfarfod o oddeutu 30 o unigolion mwyaf dylanwadol sectorau cyhoeddus a phreifat y wlad er mwyn cynllunio sut y gellid cynnwys GPU yn niwydiant Cymru.

Bellach, mae'r Cyngor wedi cydweithio â'r penderfynwyr hyn a'r rhai sy'n dylanwadu ar farn i ddatblygu pwyntiau gweithredu allweddol i hyrwyddo'r uchelgais hwn.

Dull o ymdrin â rheolaeth yw Gweithio Perfformiad Uchel a gynlluniwyd i gynyddu hyd yr eithaf cyfraniad yr holl weithwyr at lwyddiant pob busnes.

Credir yn gyffredinol mai GPU sy'n gyfrifol am wyrth barhaus economi Singapore. Mae lefelau uchel o hunanreolaeth ac ymwneud y gweithwyr yn nodweddiadol o GPU, fel y mae gwell cyfathrebu mewnol, dysgu parhaus a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Daw oblygiadau pwysig i ran rheolwyr yn sgîl cyflwyno arferion o'r fath, oherwydd mai arweinwyr a hwyluswyr timau sy'n rheoli eu hunain fydd eu rôl, yn hytrach na'r rôl gorchmynwyr draddodiadol.

I lansio'r ddadl, trefnodd y Cyngor, ynghyd â Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad, i ddau o brif chwaraewyr chwyldro economaidd Singapore - Dr Joseph Pious a Dr Grace Yow – fynychu achlysur prin y tu allan i'w gwlad er mwyn rhannu eu profiadau ag unigolion blaenllaw yn y maes yng Nghymru.

Cynhyrchodd eu gwybodaeth fewnol, ynghyd â deilliannau trafodaethau dwys mewn gweithdai, set o gynigion allweddol a gynlluniwyd i ganolbwyntio'r ddadl ar sut y gellid defnyddio GPU yn effeithiol yng Nghymru.

Cyflwynwyd yr amlinelliad hwn i gynhadledd Sgiliau Cymru yng Nghasnewydd fis Hydref, ac ymhlith yr amrywiaeth o weithrediadau allweddol roedd yn eu cynnwys mae:

- Creu grŵp o gefnogwyr GPU i annog diddordeb yn y cysyniad ac i rannu arfer gorau yng Nghymru a thu hwnt
- Cymharu Cymru â Singapore er mwyn gweld sut y gellid defnyddio GPU mewn cyd-destun Cymreig
- Defnyddio grwpiau sector ac awdurdodau lleol i ysgogi cynnydd tuag at dargedau clir ar gyfer newid
- Creu cysylltiadau clir rhwng cefnogaeth grantiau a datblygiad y sgiliau sy'n ofynnol i GPU
- Datblygu rhwydwaith o arweinwyr ac asesu'r posibilrwydd o gael Canolfan Arweinyddiaeth Genedlaethol
- Sicrhau cefnogaeth gweinidogion i uchelgeisiau GPU

Nod Cyngor Rheolaeth Cymru yw parhau i fod yn hwyluswr i annog a helpu arweinwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i chwarae rhan yn y gwaith o greu economi llwyddiannus, wedi'i seilio ar yr arferion rheoli gorau, a fydd yn sicrhau perfformiad gorau posibl y gweithlu.

Plethu Arloesi i mewn i Wead Busnes

Mae'r ymchwil i greu cwmnïau mwy arloesol wedi dod yn un o gonglfeini strategaeth economaidd Cymru.

Ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi rôl arweiniol i Gyngor Rheolaeth Cymru yn y gwaith o hybu'r math newydd o reoli ac arwain sy'n ofynnol i arwain at y cyfnod newydd dynamig hwn o ddiwydiannau uchel eu gwerth.

Cyfraniad pwysig cyntaf y Cyngor at roi'r strategaeth hon ar waith oedd adroddiad allweddol ei grŵp gwaith arbennig ar Reoli ac Arwain a gyflwynwyd yn ystod Gwanwyn 2003. Nod yr adroddiad hwn oedd nodi a rhannu llawer o'r "cyfrinachau arloesi" sy'n cynnal cwmnïau mwyaf llwyddiannus Cymru.

Roedd y Grŵp Gwaith yn gweithredu ar sail nad yw arloesi'n golygu datblygu cynnyrch a thechnolegau newydd yn unig, ond yn hytrach y broses gyfan o gyflwyno a chynnal diwylliant o greadigrwydd a meddwl gwreiddiol yn yr holl agweddau ar redeg busnes drwyddynt draw.

Eu cynsail sylfaenol oedd bod busnesau arloesol yn dod i'r amlwg oherwydd arweinwyr sy'n achosi'r holl reolwyr a staff i feddwl o'r newydd, ac felly'n meithrin yr amodau i wella fesul cam.

Roedd yr adroddiad yn rhoi darlun cryno o arloesedd ar waith, gan edrych yn fanwl ar sut y gellid sicrhau bod arloesi yn dod yn rhan hanfodol o'r saith elfen allweddol sy'n rhan o wead unrhyw fusnes.

Y saith elfen yw arweinyddiaeth, strategaeth, pobl, prosesau, nwyddau a gwasanaethau, ffocws ar gwsmeriaid ac elw trwy fantais gystadleuol.

Trafodaethau dwys mewn gweithdai rhwng prif entrepreneuriaid Cymru oedd sylfaen yr adroddiad, ac arweiniodd hyn at raglen ymchwil mewn 12 o brif fentrau Cymru a oedd eisoes ag enw da am wreiddioldeb a mentergarwch yn eu dull o gynnal busnes.

Gwnaeth y grŵp gyfweld ac astudio trawsdoriad, yn amrywio o fusnesau bach uwch-dechnoleg sy'n cyflogi pump o bobl i gwmnïau sydd ar y farchnad stoc â mwy na 1,200 o weithwyr.

Mewn rhai achosion, roedd y busnesau yn rhan o sefydliad rhyngwladol, ac felly yn rhoi cyfle i'r grŵp astudio effaith byd-eang arfer gorau o ran rheoli ac arwain.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio yn eglur ar sgiliau arwain, ac ar ba ffordd y mae'r rhain yn wahanol i sgiliau rheoli, sef eu bod yn cynnwys bod yn feddwl agored, herio'r sefyllfa sydd ohoni, creu gweledigaethau newydd ac ysgogi newid. Cyfeiriodd at yr angen i greu prosesau i ysgogi arloesi mewn sefydliadau a gwrando ar syniadau, a allai annog arloeswyr i ddatblygu syniadau newydd ynglŷn â sut y gellid diwallu anghenion cwsmeriaid.

Yn anochel, roedd hyn yn cynnwys grymuso pobl. Un o gasgliadau allweddol yr adroddiad oedd po fwyaf lefel y grymuso po fwyaf yw gallu'r busnes i greu elw.

Roedd hefyd yn dwyn sylw at yr angen i ddadansoddi anghenion cwsmeriaid a dyfeisio pethau arloesol i gynnig iddynt, sy'n wahanol i'r hyn y mae eu cystadleuwyr yn ei gynnig.

Un o brif anogaethau'r adroddiad oedd y dylai rheolwyr ac arweinwyr diwydiant Cymru herio'r sefyllfa sydd ohoni a dod i adnabod eu cwsmeriaid er mwyn nodi eu hanghenion. Mae angen atebion arloesol i wneud hyn.

Er mwyn ysgogi pobl i fod yn feddwl agored, mae pob adran o'r adroddiad yn cynnwys deg cwestiwn pryfoclyd sy'n gorfodi rheolwyr i edrych yn fanwl ar ba mor arloesol y maent ar hyn o bryd yn ôl y saith maen prawf allweddol.

Dywedodd Cadeirydd y Grŵp Gwaith, Carl Hadley, sy'n ddiwydiannwr profiadol, ei fod yn ystyried yr adroddiad yn gam cyntaf pwysig tuag at lunio safon rheoli a allai arwain cwmnïau arloesol yn y dyfodol.

Ychwanegodd y bydd angen cydweithio yn agos â chyrff sy'n bartneriaid yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn gwireddu'r dyhead hwn.

Her i Roi eu Safon ar Brawf

Bu ugeiniau o dimau gweithredwyr o amrywiaeth eang o sectorau diwydiant ledled Cymru yn cystadlu yn erbyn ei gilydd wrth gymharu eu sgiliau rheoli ac arwain yn yr ail Her Tîm Rheolaeth Cymru flynyddol.

Rhoddodd cyfres o ymarferion corfforol a meddyliol, a gynlluniwyd yn ofalus, y cyfle i dimau brofi eu safon o ran mentro, arloesi, cynllunio, datrys problemau, trafod telerau, cryfder wrth drefnu a chreadigrwydd.

Cyngor Rheolaeth Cymru a drefnodd yr achlysur mewn cysylltiad â Trac, adran hyfforddi asiantaeth fenter Antur Teifi. Roedd dau bwrpas i'r achlysur; dwyn sylw at bwysigrwydd rhagoriaeth rheolaeth i economi Cymru a defnyddio cystadleuaeth rhwng grwpiau cyfoedion i ysbrydoli rheolwyr unigol a grwpiau o reolwyr i wella'u perfformiad.

Cyflwynodd 77 tîm gais i gystadlu yn her 2003, a llwyddodd rhestr fer o 30 tîm i gyrraedd y rownd derfynol ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ar Fawrth 27ain.

Yr Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFU) oedd yr enillwyr a Heddlu Dyfed Powys a chanolfan gweithgareddau awyr agored Mount Severn ger Llanidloes ddaeth yn ail.

Cyflwynwyd gwobrau i'r timau buddugol yn y cinio dathlu yn nhref cyfagos Llandrindod fin nos. Mae'r achlysur yn prysur datblygu i fod yn un o brif achlysuron calendr busnesau Cymru.

Cwmni ymgynghori ar datblygiad rheolwyr o Aberhonddu, Manzoku, a gynlluniodd yr ymarferion, ac roedd y rhain yn gofyn i dimau gystadlu yn erbyn ei gilydd yn ogystal â nodi lle byddai cydweithio strategol yn cyflawni gwell canlyniadau nag y byddai cystadlu.

Roedd cyfres o dasgau, a drefnwyd yn dri chyfnod, yn canolbwyntio i ddechrau ar sgiliau cynllunio a thrafod telerau, yna ar drefnu a datrys problemau ac, yn olaf, ar greadigrwydd.

Bwriad pob tasg oedd bod yn addysgol i'r rhai a oedd yn eu cyflawni, yn ogystal â rhoi cyfle i ddangos eu galluoedd i bobl eraill. Mae Cyngor Rheolaeth Cymru a Trac wedi cynnal ymarfer gwerthuso a fydd yn helpu i ddatblygu cystadleuaeth uchel ei phroffil yn y dyfodol.

Mae canlyniadau arolwg o'r cyfranogwyr yn dangos bod 71% ohonynt wedi defnyddio'r technegau y gwnaethant eu dysgu ar y diwrnod yn eu bywydau busnes. Adroddodd mwy na chwech o bob deg eu bod wedi ennill syniadau busnes newydd, a dywedodd naw o bob deg eu bod wedi ennill syniadau newydd ar gyfer datblygu staff.

Dywedodd pawb a ymatebodd fod yr achlysur wedi bod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ac yn ymarfer da iawn i adeiladu tîm. Dywedodd 90% ei fod wedi eu helpu i ddysgu sgiliau datrys problemau a dywedodd 95% ei fod yr un mor ddefnyddiol yn achos sgiliau cyfathrebu.

Roedd fformat yr achlysur hefyd yn herio hierarchaethau rheolaeth. Er bod timau'n cynnwys rheolwyr o bob lefel mewn sefydliad, daeth yn gyffredin i aelodau iau y tîm arwain yn ystod y tasgau, gan ymateb i amgylchiadau a oedd yn gweddu i'w doniau penodol hwy.

Roedd sylwadau amrywiaeth eang o fusnesau yn cadarnhau gwerth cymryd rhan yn yr achlysur. Roedd ymateb Micheline Baines o Baines Consulting, Casnewydd, yn nodweddiadol. Dywedodd: "Roedd pawb ohonom yn blês iawn â gweithgareddau'r diwrnod a'r hyn y cawsom ohono. Rhywbeth wnaethom ddysgu o'r achlysur hwn yn arbennig oedd ei bod yn werth gwrando, a thrwy wrando ar bobl eraill byddwch yn dysgu amdanoch chi'ch hun. Yn sicr, byddwn yn annog cwmnïau bychain eraill i fynychu'r achlysur."

Gweld Rhagoriaeth ar Waith

Cydnabyddir bellach y bydd rheolwyr yn dysgu orau oddi wrth reolwyr eraill.

Bellach, mae pobl fusnes weithredol sy'n gallu cynnig manteision gwybodaeth am arferion da, yn ogystal â phrofiad ohonynt, yn werthfawr iawn fel ymgynghorwyr a mentoriaid ym maes rheoli ac arwain.

Ar sail yr athroniaeth hon, lansiwyd cyfnod arall llwyddiannus ar raglen "Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru" yn ystod 2002-03.

Mae'r rhaglen rhannu gwybodaeth hon, sy'n hynod o effeithiol, yn galluogi rheolwyr o fusnesau uchelgeisiol sy'n datblygu i ymweld â safleoedd mentrau sy'n batrwm i eraill sydd wedi dangos arfer da perthnasol yn eu maes.

Canolfan Ansawdd Cymru drefnodd yr ymarfer, Cyngor Rheolaeth Cymru oedd rheolwyr y prosiect a Chynulliad Cenedlaethol Cymru oedd yn ei ariannu. Roedd yn adeiladu ar lwyddiant prosiect y llynedd pan ymwelodd 350 o reolwyr â 24 o gwmnïau model sy'n batrwm i eraill.

Detholwyd cwmnïau sy'n batrwm i eraill a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddiwydiannau, o gwmnïau gweithgynhyrchu a gwasanaethau ariannol i gwmnïau lletygarwch a gofal plant proffesiynol.

Mae Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru yn cwmpasu nifer o wahanol feysydd o ragoriaeth rheolaeth, ac mae Six Sigma a Gweithgynhyrchu Darbodus yn feysydd o ddiddordeb neilltuol i'r ymwelwyr.

Ymhlith meysydd eraill y mae cyfranogwyr wedi bod yn awyddus i'w gwylio mae oriau gwaith hyblyg, dulliau arloesol o recriwtio, rhannu syniadau, rhwydweithio, rheoli ansawdd, newid diwylliannol, adeiladu tîm a hybu meddwl yn greadigol ac yn ochrol a defnyddio technoleg ac arloesedd.

Cymeradwyodd Andrew Davies, y Gweinidog Datblygu Economaidd, cyfnod diweddaraf y rhaglen, a gafodd ei lansio yng nghanolfan arddangos cynnal a chadw British Airways, sydd y drws nesaf i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Dywedodd y Gweinidog fod y rhaglen yn gyflenwad perffaith i gynllun gweithredu "Cymru o Blaid Arloesi".

Dywedodd Vincent Kane, Cadeirydd Canolfan Ansawdd Cymru, fod nifer fawr o fusnesau yn y wlad sy'n uchel eu cyflawniad, ac roedd yn bwysig bod cymaint o fentrau eraill â phosibl yn cael cyfle i ddysgu oddi wrth y busnesau hyn a oedd yn perfformio yn dda.

Roedd busnesau a oedd yn ymweld yn gwylio'r busnesau a oedd wedi agor eu drysau ar waith, a bu trafod dwys ynglŷn â sut roeddynt yn ymdrin â nifer o agweddau allweddol ar eu gweithredu. Dychwelodd rhai am ail ymweliad â chwmnïau a oedd yn berthnasol iawn i'w hamgylchiadau hwy.

Mae adborth cychwynnol rownd diweddaraf yr ymweliadau yn dynodi, yn y rhan fwyaf o achosion, bod ymwelwyr wedi dysgu am dechnegau a dulliau o weithio yr oeddynt naill ai'n gallu eu defnyddio yn eu busnesau eu hunain neu a oedd yn eu hysbrydoli i wneud newidiadau buddiol yn eu busnesau.

Yn sgîl yr adborth, mae'n amlwg bod nifer fawr â diddordeb yn yr ymweliadau hyn ac yn eu mwynhau. Er mai gweithredu ar raddfa fach fydd eu heffaith i ddechrau, yn sicr mae eu heffaith i'w gweld. Yn y tymor byr, mae nifer o awgrymiadau a chynghorion yn cael eu defnyddio er budd busnesau.

Proses ddwy ffordd yw manteision rhannu arfer da, wrth i gwmnïau sy'n batrwm i eraill gael budd, yn ogystal â'r ymwelwyr.

Mae Michael Edwards o British Airways Caerdydd eisoes wedi agor ei ddrysau ar gyfer nifer o ymweliadau pan oedd yn rhan o Grŵp BA yn Y Coed-duon yng Ngwent. Nododd fod gwahodd busnesau eraill i edrych ar arfer da ar waith yn "gymhelliant grymus" i'w staff a'i reolwyr ei hun.

Mae'r rhaglen yn cynnwys dadansoddiad llawn ar ôl yr ymweliad i asesu pa mor werthfawr yw'r ymweliadau ac i helpu â'r broses gwella parhaus yn ystod cyfnodau yn y dyfodol.

Mae taflen newyddion ddiweddaraf Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru yn cynnwys crynodebau o'r manteision i gyfranogwyr y rhaglen. Mae hon ar gael oddi wrth Ganolfan Ansawdd Cymru neu ar-lein yn **www.iwi.org.uk** .

Aelodau'r Cyngor

Aelodau Cyngor Rheolaeth Cymru yn ystod 2002-03

Ian H Rees (Cadeirydd) -	Riverside Water Technologies
Allan Martin (Dirprwy Gadeirydd) -	Cyfarwyddwr, Fforwm Electroneg Cymru
	Cyfarwyddwr, Gyrfa Cymru Gwent
Laurence James (Ysgrifennydd) –	Cyfreithwyr Bond Pearce
Carl Hadley -	Cyfarwyddwr, Rockwool Cyfyngedig
	Cyfarwyddwr, Mentrau Prifysgol Cymru Abertawe
Rob Halford –	Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianneg
Roger James –	AMICUS
Yr Athro Dylan Jones-Evans –	Ysgol Busnes a Datblygiad Rhanbarthol, Bangor
Pauline Kotschy -	Pauline Kotschy Associates
Yr Athro Roger Mansfield –	Ysgol Fusnes Caerdydd
Steve Martin –	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Tom Morgan –	Sefydliad y Cyfarwyddwyr (wedi ymddeol mis Chwefror 2003)
Tim Williams –	Fforwm Modurol Cymru
Dr Brian Willott –	Aelod o'r Cyngor, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
	Cyfarwyddwr, Dragon International Studios Cyfyngedig
Nonna Woodward –	Papurau Newydd Gogledd Cymru
Eileen Murphy –	Ymgynghorydd yn Sector Gwirfoddol Cymru

Arsylwyr

Dr Ron Loveland – Llywodraeth Cynulliad Cymru

Richard Rossington – Llywodraeth Cynulliad Cymru

John V Williams – ACCAC

Prif Weithredwr

Christopher Ward

Gweithredwr Marchnata

Gwyneth Stroud

Gweithredwr Gogledd Cymru

Hywel Roberts